CANCER RESEARCH UK

Gyda'n gilydd rydym yn curo canser

Eich canllaw i dreialon clinigol



Yn y daflen wybodaeth hon

Yn y daflen wybodaeth hon, byddwch chi'n dysgu:

- beth yw treialon clinigol
- sut y gallwch gymryd rhan
- pa gwestiynau i'w gofyn

Ewch i **cruk.org/trials** i ddysgu rhagor





Beth yw treial clinigol?

Ymchwil feddygol sy'n cynnwys pobl yw treialon clinigol. Maen nhw'n ein helpu i ddeall mwy am ganser, gan gynnwys:

- achosion canser
- symptomau a sgrinio
- diagnosio canser
- trin canser
- byw gyda chanser

Mae treialon yn rhan arferol o ofal canser. Mae llawer o wahanol fathau, gan gynnwys:

- rhoi cynnig ar feddyginiaeth neu driniaeth newydd
- rhoi samplau megis gwaed neu feinwe
- llenwi holiadur
- cael profion neu brawf newydd

Efallai y byddwch chi'n rhan o dreial am un apwyntiad yn unig, neu dros ychydig flynyddoedd.

Pam rydym ni'n cynnal treialon clinigol?

Treialon yw'r unig ffordd ddibynadwy o ddarganfod a yw prawf neu driniaeth newydd:

- yn ddiogel
- yn gweithio'n well na'r prawf neu'r driniaeth bresennol
- â sgîl-effeithiau
- yn eich helpu i deimlo'n well

Maen nhw'n ein helpu i wella gofal a thriniaeth i bobl â chanser, nawr ac yn y dyfodol.

Mae **'treial clinigol'**, **'ymchwil glinigol'** ac **'astudiaeth ymchwil'** i gyd yn golygu'r un peth.



Sut ydw i'n ymuno â threial clinigol?

Mae gwahanol ffyrdd y gallwch chi gymryd rhan mewn treial clinigol:

- Efallai y bydd eich arbenigwr neu nyrs ymchwil yn cysylltu â chi os oes treial a allai fod yn addas i chi.
- Gallwch chi siarad â'ch arbenigwr canser. Gallan nhw ddweud wrthych pa dreialon sy'n rhedeg yn eich ysbyty neu eich atgyfeirio at ysbyty arall.

Os oes treial addas, bydd eich arbenigwr neu nyrs ymchwil yn esbonio pethau'n fanylach ac yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i chi. Bydd rhaid i chi lofnodi ffurflen ganiatâd os penderfynwch gymryd rhan.

Pethau i'w cofio:

- Gall gwybodaeth am dreialon fod yn gymhleth, felly gofynnwch os oes unrhyw beth nad ydych chi'n ei ddeall.
- Gall trafod treial gyda theulu neu ffrindiau eich helpu i benderfynu a ydych chi am gymryd rhan.
- Does di, rhaid i chi gymryd rhan mewn treial os nad ydych chi eisiau.
- Gallwch chi adael treial clinigol unrhyw bryd heb roi rheswm.

Mae gan ein cronfa ddata treialon clinigol wybodaeth am fwy na 2,800 o dreialon clinigol o'r DU.

Ewch i **cruk.org/trials** i ddysgu rhagor.



A yw treialon clinigol yn ddiogel?

Mae eich diogelwch yn bwysig iawn. Bydd eich tîm ymchwil yn eich monitro'n agos, ond mae rhai risgiau gydag unrhyw dreial clinigol. Bydd y risgiau a'r manteision posib yn cael eu hesbonio'n glir i chi.

Beth yw'r manteision?

- Efallai y cewch chi driniaeth sydd ar gael mewn treial clinigol yn unig.
- Efallai y cewch chi fwy o archwiliadau, profion neu sganiau nag arfer, a allai fod yn galonogol i chi.
- Byddwch chi'n helpu i wella triniaethau canser a gofal i gleifion y dyfodol.

Beth yw'r anfanteision?

- Efallai y bydd rhaid i chi wneud mwy o deithiau i'r ysbyty.
- Gallai'r profion a'r archwiliadau ychwanegol gynyddu eich pryder am ganser.
- Efallai y bydd rhaid i chi wneud rhywfaint o waith papur.



Beth ddylwn i ei ofyn?

Dyma restr o gwestiynau y gallech chi eu gofyn i'ch arbenigwr neu'ch tîm ymchwil os oes gennych chi ddiddordeb mewn treial clinigol:

- Pam rydych chi'n gwneud y treial hwn?
- A yw'r driniaeth hon wedi cael ei defnyddio o'r blaen?
- Am ba hyd y bydda i'n cael y driniaeth?
- A fydda i'n elwa o'r treial hwn?
- A oes unrhyw risgiau neu sgîl-effeithiau?
- A fydda i'n cael unrhyw apwyntiadau neu brofion ysbyty ychwanegol?
- A fydd angen i mi aros yn yr ysbyty?
- Pa mor hir yw'r broses dilyn i fyny?
- Beth fydd yn digwydd i'm gofal os bydda i'n tynnu'n ôl o'r treial?
- Beth fyddwch chi'n ei wneud gydag unrhyw wybodaeth a gasglwch amdana i?
- A fydda i'n cael unrhyw ganlyniadau?
- A fydda i'n cael fy nhalu?
- A fydd hyn yn effeithio ar fy yswiriant teithio neu iechyd?
- Pwy alla i gysylltu â nhw os oes gen i unrhyw gwestiynau?





Stori Susan

Cafodd Susan ddiagnosis o ganser y coluddyn ar ôl sylwi ar newid yn ei harferion coluddyn. Cafodd hi lawdriniaeth lwyddiannus i gael gwared ar ei thiwmor ym mis Mai 2016.

Ers hynny mae hi wedi ymuno â'r treial clinigol Add-Aspirin. Mae hyn yn edrych ar p'un ai y gall cymryd aspirin ar ôl triniaeth atal canser rhag dychwelyd.

Meddai hi: "Cytunais i gymryd rhan yn y gobaith y byddai'n helpu gydag ymchwil ac unrhyw un arall a oedd yn wynebu'r un diagnosis. Byddwn i'n cynghori unrhyw un sy'n cael cynnig lle ar dreial i ystyried ymuno. Roeddwn i'n teimlo bod gen i rwyd ddiogelwch, oherwydd ar ôl i mi gael fy rhyddhau o'r ysbyty roeddwn i wedi teimlo'n unig iawn, yn bryderus, ac yn ofni y byddai'r canser yn dychwelyd. Rhoddodd dawelwch meddwl mawr i mi o wybod fy mod i'n cael fy monitro'n rheolaidd."

Cancer Research UK a threialon clinigol

Ar hyn o bryd rydym ni'n cefnogi cannoedd o dreialon clinigol sy'n ymchwilio i driniaethau a phrofion ar gyfer canser. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i ddeall canser yn well a sicrhau bod ymchwil labordy yn symud ymlaen drwy dreialon clinigol i wella bywydau pobl y mae canser yn effeithio arnyn nhw.

Cyf: CTL001_25 Mawrth 2025
I'w adolygu erbyn: Mawrth 2028

Mae Cancer Research UK yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089464), yr Alban (SC041666), Ynys Manaw (1103) a Jersey (247).

© Cancer Research UK (2025)

Fy nyrs ymchwil

.....

Am ragor o wybodaeth

Ewch i **cruk.org/trials** Gallwch chi ddefnyddio ein cronfa ddata treialon clinigol ar-lein i gael gwybod am dreialon clinigol yn eich ardal.

Ewch i **cruk.org/about-cancer** Wedi'i ysgrifennu'n arbennig ar gyfer pobl y mae canser yn effeithio arnyn nhw, mae ein gwybodaeth yn cwmpasu pob agwedd ar ganser, o ddiagnosis i driniaeth a byw y tu hwnt i ganser.

Sgwrsio ar-lein

Ewch i **cancerchat.cruk.org** i rannu gwybodaeth a phrofiadau gydag eraill sy'n byw gyda chanser yn ein cymuned ar-lein.

Gofynnwch i'n nyrsys

Gallwch chi siarad â'n nyrsys arbenigol ar radffôn **0808 800 4040**, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm.

Trusted Information Creator
Patient Information Forum

CANCER RESEARCH UK